Arolygiaeth Gofal Cymru
Care Inspectorate Wales

# Adroddiad Arolygu

**Meinir Hurford**

**Aberystwyth**

**This report is also available in English**

**Mae'r adroddiad hwn hefyd ar gael yn Saesneg**



## Dyddiad Cwblhau'r Arolygiad

19/06/2023

## Ynglŷn â'r gwasanaeth

| | |
|---|---|
| Y math o ofal a ddarperir | Gwarchodwr Plant |
| Lleoedd cofrestredig | 6 |
| Iaith y gwasanaeth | Y ddwy |
| Arolygiad blaenorol Arolygiaeth Gofal Cymru | 15 Mehefin 2022 |
| A yw hwn yn wasanaeth Dechrau'n Deg? | Nac ydy |
| A yw'r gwasanaeth hwn yn darparu'r Cynnig Rhagweithiol ar gyfer y Gymraeg? | Mae'r gwasanaeth hwn yn gweithio tuag at ddarparu 'Cynnig Rhagweithiol' ar gyfer y Gymraeg ac mae'n gwneud cryn ymdrech i hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg a diwylliant Cymru. |

***Llywodraeth Cymru © Hawlfraint y Goron 2023.***

*Cewch ddefnyddio ac ailddefnyddio'r wybodaeth sydd yn y cyhoeddiad hwn (ac eithrio'r logos) yn ddi-dâl, mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored. Gallwch weld y Drwydded Llywodraeth Agored ar wefan yr Archifau Gwladol, neu gallwch ysgrifennu at The Information Policy Team, The National Archives, Kew, London, TW9 4DU, neu anfon e-bost i: psi@nationalarchives.gsi.gov.uk*

*Rhaid i chi atgynhyrchu ein deunydd yn fanwl gywir a pheidio â'i ddefnyddio mewn cyd-destun*

## Crynodeb

Arolygiad â phwyslais penodol oedd hwn, ac ar yr achlysur hwn, dim ond y themâu Llesiant, Gofal a Datblygiad ac Arweinyddiaeth a Rheolaeth y gwnaethom eu hystyried. Ni wnaethom ystyried thema'r Amgylchedd.

Mae'r plant yn teimlo'n ddiogel ac maent yn hapus yn y lleoliad. Maent wedi meithrin cydberthnasau cadarnhaol â'r gwarchodwr plant; maent yn teimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi ac yn cael gofal cyson. Mae'r plant yn egnïol, yn ddysgwyr chwilfrydig ac maent yn mwynhau eu gweithgareddau seiliedig ar chwarae, gan feithrin yr ymdeimlad o gyflawniad o'r hyn y maent yn ei wneud.

Mae'r gwarchodwr plant yn darparu awyrgylch magwrus a gofalgar. Mae'n adnabod y plant yn dda ac yn meddu ar ddealltwriaeth dda o'i chyfrifoldebau i amddiffyn y plant.

Mae'r gwarchodwr plant yn sicrhau y caiff y cymarebau eu cynnal i gydymffurfio â'r rheoliadau ac i gyrraedd y Safonau Gofynnol Cenedlaethol. Mae cofnodion ar waith er mwyn dangos presenoldeb y plant yn y lleoliad.

## Llesiant

Gan mai arolygiad â phwyslais penodol oedd hwn, nid ydym wedi ystyried y thema hon yn llawn.

Mae'r plant yn hyderus ac wedi ymlacio yn y lleoliad. Cânt lawer o ddewisiadau, megis yr hyn maent am chwarae, lle y maent am dreulio eu hamser a ph'un a ydynt am wneud pethau yn annibynnol neu dderbyn help i'w cyflawni. Caiff dewisiadau'r plant eu gwerthfawrogi, ac maent yn hyderus ac yn hapus i fynegi eu hunain.

Mae'r plant yn hapus wrth chwarae a dysgu. Maent yn canolbwyntio'n dda, gan ddangos diddordeb yn yr hyn y maent wedi dewis eu gwneud am gyfnodau estynedig. Gwelsom y plant yn ceisio cwblhau jig-sos, tra roedd eraill yn dewis chwarae gyda'r cerbydau neu eistedd a chael amser tawel.

Mae'r plant yn teimlo'n ddiogel ac yn hapus yn y lleoliad ac maent wedi meithrin cydberthynas cadarnhaol â'r gwarchodwr plant yn gyflym. Er enghraifft, gwelsom y plant yn chwarae'n hapus ochr yn ochr â'r gwarchodwr plant. Caiff dealltwriaeth a geirfa'r plant eu datblygu drwy chwarae gan eu bod yn gallu enwi lliwiau'r cerbydau a'r mathau gwahanol ohonynt. Roeddent yn ymateb yn dda i anogaeth gan y gwarchodwr plant, gan chwerthin a phiffian chwerthin wrth iddynt dderbyn canmoliaeth am gwblhau'r jig-so yn llwyddiannus.

Mae'r plant yn annibynnol. Gallant gael gafael ar adnoddau yn annibynnol ac maent yn gyfarwydd â'r drefn ddyddiol. Maent yn mynd at y gwarchodwr plant yn ddigymell i ofyn am gymorth. Er enghraifft, gwnaethant ofyn am help i ddefnyddio eu hoff degan. Caiff y plant ofal gan warchodwr plant cyfeillgar a gofalgar sy'n tawelu eu meddwl wrth siarad â nhw yn dawel ac ar eu lefel eu hunain.

## Gofal a Datblygiad

Gan mai arolygiad â phwyslais penodol oedd hwn, nid ydym wedi ystyried y thema hon yn llawn.

Mae'r gwarchodwr plant yn sicrhau bod y plant yn gyfforddus wrth newid eu cewynnau. Mae'n sicrhau ei bod yn golchi ei dwylo cyn ac ar ôl newid cewynnau. Fodd bynnag, ni wnaeth wisgo ffedog na menig untro.

## **Arweinyddiaeth** a Rheolaeth

Gan mai arolygiad â phwyslais penodol oedd hwn, nid ydym wedi ystyried y thema hon yn llawn.

Mae'r gwarchodwr plant yn cadw cofrestrau plant ac yn sicrhau ei bod yn cyrraedd y Safonau Gofynnol Cenedlaethol mewn perthynas â'r cymarebau. Roedd y cofnodion a welsom yn dangos amseroedd cyrraedd a gadael y plant yn glir. Mae'r gwarchodwr plant yn sicrhau y caiff y rhieni wybod am ddamwain neu ddigwyddiad ar lafar. Fodd bynnag, ni chaiff y ffurflenni damweiniau a digwyddiadau eu llofnodi gan y rhieni tan sawl wythnos yn ddiweddarach. Mae'r gwarchodwr plant yn rhannu ei pholisïau a'i gweithdrefnau â'r rhieni yn ystod y sesiynau setlo. Caiff cydsyniad a chontractau eu llofnodi gan y rheini a'u rhannu yn electronig.

| Crynodeb o'r Achos o Ddiffyg Cydymffurfio | |
|---|---|
| **Statws** | **Ystyr pob un** |
| **Newydd** | Nodwyd yr achos hwn o ddiffyg cydymffurfio yn yr arolygiad hwn. |
| **Adolygwyd** | Adolygwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. Mae'r dyddiad targed ar gyfer cydymffurfio yn y dyfodol a chaiff ei brofi yn ystod yr arolygiad nesaf. |
| **Heb Gyflawni** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. |
| **Cyflawnwyd** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn a llwyddwyd i'w chyflawni. |

Rydym yn ymateb i achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau pan gaiff canlyniadau gwael i bobl, a/neu risg i lesiant pobl eu nodi drwy gyhoeddi Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth.

Rhaid i'r darparwr gymryd camau ar unwaith i ymdrin â hyn a gwneud gwelliannau. Os bydd darparwyr yn methu â chymryd camau gweithredu â blaenoriaeth erbyn y dyddiad targed, gallwn uwchgyfeirio'r mater at Banel Gwella a Gorfodi.

| Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Dd/G | Ni nodwyd unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn | Dd/G |

Lle byddwn yn canfod achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau ond na chaiff unrhyw risg uniongyrchol na sylweddol i'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth ei nodi, byddwn yn tynnu sylw atynt fel Meysydd i'w Gwella.

Byddwn yn disgwyl i'r darparwr gymryd camau i unioni'r achos a byddwn yn ei ystyried eto yn yr arolygiad nesaf. Lle bydd  y darparwr wedi methu â gwneud y gwelliannau angenrheidiol, byddwn yn uwchgyfeirio'r mater drwy gyhoeddi Hysbysiad Gweithredu â Blaenoriaeth.

| Maes i'w Wella/Meysydd i'w Gwella | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Dd/G | Ni nodwyd unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn | Dd/G |
| 30 | Nid yw'r person cofrestredig yn cydymffurfio â'r rheoliad gan nad yw'r gwarchodwr plant wedi bod yn cadw cofnod dyddiol o enwau'r plant perthnasol, yr oriau roeddent yn bresennol, ac enwau'r unigolion a fu'n gofalu amdanynt. | Cyflawnwyd |

Lle byddwn yn canfod nad yw'r darparwr yn cyrraedd y Safonau Gofynnol Cenedlaethol ar gyfer Gofal Plant Rheoleiddiedig ond nad oes unrhyw risg uniongyrchol na sylweddol i'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth, rydym yn tynnu sylw at yr enghreifftiau hyn fel Argymhellion i Gyrraedd y Safonau Gofynnol Cenedlaethol.

Rydym yn disgwyl i'r darparwr weithredu i ymdrin â'r rhain, a byddwn yn eu hystyried yn yr arolygiad nesaf.

| Safonau Gofynnol Cenedlaethol | |
|---|---|
| Safon | Argymhelliad/argymhellion |
| Safon 10 - Gofal Iechyd | Sicrhau y caiff cyfarpar diogelu personol (PPE), megis menig a ffedogau untro, eu gwisgo wrth ddelio â hylifau'r corff. |
| Safon 5 - Cofnodion | Sicrhau bod y rhieni'n llofnodi cofnodion unrhyw ddamweiniau ar unwaith i gydnabod y cofnod. |

**A oedd yr adroddiad hwn yn ddefnyddiol?**

Rydym am glywed eich barn a'ch profiadau o ddarllen ein hadroddiadau arolygu. Bydd hyn yn ein helpu i ddeall a yw ein hadroddiadau yn rhoi gwybodaeth glir a gwerthfawr i chi.

I rannu eich barn ar ein hadroddiadau, dilynwch y ddolen isod i gwblhau arolwg byr:

- Arolwg adroddiadau arolygu

Os hoffech roi adborth cyffredinol ar wasanaeth, ewch i'n tudalen Arolygon adborth.

**Dyddiad Cyhoeddi** 03/08/2023